# Rheolau Ffioedd (Astudiaeth Israddedig) Cymru 2026/27

## Cynnwys


**Cynnwys** ........ 1

**Fformat, cymorth a gwybodaeth amgen** ........ 3

Cysylltu â ni: ........ 3

**1. Cyflwyniad** ........ 3

**2. Cwmpas** ........ 4

Yr hyn y mae'r polisi hwn yn ei gwmpasu ........ 4

Yr hyn nad yw'r polisi hwn yn ei gwmpasu ........ 4

**3. Gosod a newid ein ffioedd** ........ 5

**4. Deall eich ffioedd a'ch cyllid** ........ 5

Pa ffioedd sy'n berthnasol i mi? ........ 5

Gwybodaeth am y cyllid ........ 7

Cyllid Cynhaliaeth ........ 7

**5. Talu eich ffioedd** ........ 8

**6. Canslo, gohirio neu dynnu'n ôl** ........ 9

Canslo ........ 9

Gohirio neu dynnu'n ôl ........ 9

Ffioedd a dalwyd gennych chi, gan drydydd parti, neu noddwr ........ 11

Newid modiwlau ........ 11

Rhwymedigaethau o ran ffioedd ........ 11

**7. Credydau Ffioedd Dewisol** ........ 13

Credydau ac Ad-daliadau Ffioedd Dewisol ........ 13

Ad-dalu Ffioedd Dewisol ........ 15

**8. Costau ychwanegol** ........ 16

**Deddfwriaeth a Pholisïau Cysylltiedig** ........ 16

**Adborth** ........ 17

**Datganiad yr Elusen** ........ 17

**Ynglŷn â'r Ddogfen hon** ........ 17

Crynodeb o'r Newidiadau Sylweddol ers y fersiwn flaenorol ........ 17

Gwybodaeth am y Ddogfen ........ 17

## Fformat, cymorth a gwybodaeth amgen

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat amgen, Cysylltwch â Ni (ewch i www.open.ac.uk/contact), ffoniwch ni ar +44 (0)300 303 5303, neu cysylltwch â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr drwy StudentHome os ydych yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd.

### Cysylltu â ni:

Os bydd angen cymorth ac arweiniad arnoch ar gyfer y ddogfen hon, cysylltwch â wales-support@open.ac.uk neu ffoniwch ni ar +44 (0)29 2047 1170.

Rydym yn croesawu cyswllt yn Gymraeg. Gall Dysgwyr Cymraeg siarad â chynghorydd cymorth myfyrwyr yn Gymraeg ar +44 (0)29 2047 1170.

**Fersiynau blaenorol:** Ar gyfer newidiadau a wnaed i'r ddogfen hon, cyfeiriwch at y cofnod newidiadau ac ar gyfer fersiynau blaenorol gweler y Rheolau Ffioedd (Astudiaeth Israddedig) ar dudalen lanio'r Rheolau Ffioedd.

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r rheolau mewn perthynas â ffioedd, rhwymedigaethau o ran ffioedd ac ad-daliadau ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig sy'n gymwys i dalu ffioedd Cymru. Mae'r gofynion o ran bod yn gymwys yn cyfeirio at y meini prawf penodol sy'n pennu pa ffi rydych chi'n gymwys i'w chael. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at y Polisi Statws Ffioedd.

1.2 Gall ffioedd amrywio yn seiliedig ar y lefel astudio, modiwlau, a phryd y byddwch yn dechrau astudio. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cwmpasu'r rheolau o ran taliadau a'r polisïau pe bai eich amgylchiadau'n newid. Dylech ddarllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r Amodau Cofrestru, yr ydych yn cytuno â nhw wrth gofrestru. Mae'r Amodau yn cynnwys manylion am eich rhwymedigaethau o ran ffioedd a'r canlyniadau pe na fyddech yn talu. I gael arweiniad personol, cysylltwch â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr.

1.3 Os hoffech gael gohebiaeth yn Gymraeg, nodwch hyn ar eich proffil StudentHome. Gallwch hefyd ddiweddaru eich dewisiadau iaith drwy ddefnyddio'r Ffurflen dewisiadau iaith.

1.4 Cyfeirir at Y Brifysgol Agored fel “**Ni**” neu “**Ein**” drwy'r ddogfen hon a chyfeirir at fyfyrwyr fel “**Chi**” neu “**Eich**”.

# 2. Cwmpas

## Yr hyn y mae'r polisi hwn yn ei gwmpasu

2.1 Mae'r Rheolau Ffioedd hyn yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer ffioedd Cymru sydd wedi'u cofrestru ar gyfer modiwl israddedig (naill ai fel modiwl ar ei ben ei hun neu fel rhan o gymhwyster) a myfyrwyr gradd Meistr Integredig ar gyfer y flwyddyn academaidd 2026/27. Bydd modiwlau'r dyfodol yn dilyn y Rheolau Ffioedd sydd ar waith ar yr adeg honno. Gall y polisi hwn gael ei ddiweddaru er mwyn cywiro camgymeriadau, gwella eglurder, neu i gydymffurfio â'r newidiadau cyfreithiol.

## Yr hyn nad yw'r polisi hwn yn ei gwmpasu

2.2 Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol i'r canlynol:

- Myfyrwyr nad ydynt yn gymwys i dalu ffi Cymru. Gweler y dudalen Polisi Rheolau Ffioedd i ddarllen polisïau perthnasol eraill a'r Polisi Statws Ffioedd i gael manylion am y ffi y byddwch yn ei thalu.
- Modiwlau neu gymwysterau ôl-raddedig (oni bai am radd Meistr Integredig). I ddarllen y Rheolau Ffioedd perthnasol ar gyfer eich gwlad, gweler y dudalen Polisi Rheolau Ffioedd.
- Modiwlau sy'n disgyn o fewn unrhyw flwyddyn academaidd arall ar wahân i 2026/27.
- Gweler y Rheolau Ffioedd sydd ar waith yn ystod y flwyddyn academaidd honno.
- Ar gyfer Rheolau Ffioedd cyn y flwyddyn academaidd 2025/26, nodwch fod pob gwlad wedi'i chynnwys mewn dogfen sengl.
- Graddau Ymchwil Ôl-raddedig. Gweler y dudalen Polisi Rheolau Ffioedd i ddarllen y polisïau perthnasol.
- Rhaglenni prentisiaeth. Cysylltwch â'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid.
- Cyrsiau Byr lle na cheir credydau. Gweler yr Amodau Cofrestru (Cyrsiau byr).
- Ar gyfer modiwlau neu gymwysterau a gynigir drwy bartneriaeth â sefydliad addysgol arall (eich 'Canolfan Addysg Leol'), cysylltwch â nhw'n uniongyrchol am ragor o wybodaeth am ffioedd, taliadau, a pholisïau cysylltiedig.

- Microgymwysterau'r Brifysgol Agored. Gweler yr Amodau Cofrestru (Microgymwysterau a gyflwynir ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir).

# 3. Gosod a newid ein ffioedd

1.2. Rydym yn caniatáu i'n myfyrwyr astudio ar ddwyseddau amrywiol a thros gyfnodau estynedig o amser. O ganlyniad, gall y strwythurau ffioedd, rheolau, a pholisïau newid yn ystod eich astudiaethau. I gael gwybodaeth fanwl am osod ffioedd, cyfeiriwch at Bolisi Statws Ffioedd.

1.3. Caiff y ffioedd ar gyfer y flwyddyn academaidd berthnasol eu cyhoeddi ar ddisgrifiad pob modiwl yn y prosbectws ar-lein yn ystod gwanwyn y flwyddyn flaenorol (e.e., bydd y ffioedd ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 yn cael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2026).

1.4. Mae newidiadau i'r ffioedd yn adlewyrchu costau darparu cyrsiau a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys costau staffio a chostau gweithredol, newidiadau i gyllid y llywodraeth neu'r corff cyllido cenedlaethol ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru (Cyllid Myfyrwyr Cymru), mynegeion chwyddiant fel y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), Mynegai Pris Manwerthu (RPI), newidiadau o ran trethiant a chwyddiant cyflogau. Yng Nghymru, ni chaiff ffioedd dysgu rhan amser eu capio gan uchafswm a nodir gan Lywodraeth Cymru.

1.5. Gall newidiadau eraill i ffioedd gynnwys cyflwyno, addasu, neu dynnu cynigion, disgownt, a chynlluniau yn ôl er mwyn helpu i gwblhau astudiaethau neu i gofrestru ar gyrsiau pellach.

1.6. Byddwn yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffioedd a phryd y bydd y newidiadau hyn yn dod i rym mewn digon o amser.

# 4. Deall eich ffioedd a'ch cyllid

## Pa ffioedd sy'n berthnasol i mi?

1.7. Cofrestru: Cewch eich hysbysu am ffioedd eich modiwl, y dulliau talu sydd ar gael, a'r terfynau amser i gofrestru. Telir y ffioedd mewn punnoedd sterling.

1.8. **Y Flwyddyn Academaidd Dymhorol:** Pan fyddwch yn dechrau astudio gyda ni, bydd Blwyddyn Academaidd Dymhorol, sef Hydref, Gaeaf, neu'r Gwanwyn yn cael ei dyrannu ar eich cyfer. Caiff eich Blwyddyn Academaidd Dymhorol ei phennu gan ddyddiad dechrau'r modiwl cyntaf y byddwch yn ei astudio gyda ni tuag at eich cymhwyster. Gall eich Blwyddyn Academaidd Dymhorol newid os byddwch yn cymryd seibiant astudio neu os byddwch yn newid i gymhwyster newydd:

- **Blwyddyn Academaidd Dymhorol yr Hydref:** Os bydd eich modiwl cyntaf yn dechrau rhwng 1 Awst a 31 Rhagfyr, y diwrnod cyntaf o'r Flwyddyn Academaidd Dymhorol yw 1 Medi.
- **Blwyddyn Academaidd Dymhorol y Gaeaf:** Os bydd eich modiwl cyntaf yn dechrau rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth, y diwrnod cyntaf o'r Flwyddyn Academaidd Dymhorol yw 1 Ionawr.
- **Blwyddyn Academaidd Dymhorol y Gwanwyn:** Os bydd eich modiwl cyntaf yn dechrau rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin, y diwrnod cyntaf o'r Flwyddyn Academaidd Dymhorol yw 1 Ebrill.

1.9. **Cyfeiriad cartref:** Mae eich ffi yn seiliedig ar eich cyfeiriad cartref ar ddiwrnod cyntaf y Flwyddyn Academaidd Dymhorol y bydd eich modiwl cyntaf yn dechrau ynddi. Eich cyfeiriad cartref yw'r lle rydych yn byw fel arfer ac yn gyfreithlon ac ni all fod yn gyfeiriad dros dro nac yn gysylltiedig â'ch gwaith. I gael rhagor o fanylion, gweler y Polisi Statws Ffioedd.

1.10. **Meini prawf preswyliaeth:** Os bydd eich preswyliaeth yn newid yn ystod eich astudiaethau, mae'n bosibl y bydd hyn yn effeithio ar eich rhwymedigaethau o ran ffioedd. Defnyddir meini prawf preswyliaeth i bennu a ydych yn gymwys i dalu ffi Cymru. I gael rhagor o fanylion, cyfeiriwch at y Polisi Statws Ffioedd.

1.11. **Statws y cymhwyster:** Bydd eich statws ffioedd yn aros yr un peth drwy gydol eich cymhwyster os byddwch yn parhau i fyw yn y DU ac yn cynnal eich statws fel myfyriwr parhaus. Fodd bynnag, os byddwch yn adleoli y tu allan i'r DU neu'n dod yn fyfyriwr sy'n dychwelyd, caiff eich atebolrwydd o ran ffioedd ei ailasesu. Ni fydd hyn yn effeithio ar y ffioedd a godir arnoch ar gyfer y modiwl(au) rydych yn ei astudio ar hyn o bryd, ond bydd yn effeithio ar unrhyw fodiwlau yn y dyfodol. I gael rhagor o fanylion am y meini prawf ar gyfer myfyrwyr parhaus a myfyrwyr sy'n dychwelyd, a sut y gall unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau effeithio ar eich ffioedd, gweler y Polisi Statws Ffioedd.

1.12. **Modiwlau Annibynnol:** Os nad ydych yn astudio tuag at gymhwyster, caiff eich ffi ei hailasesu bob tro y byddwch yn cofrestru ar gyfer modiwl.

## Gwybodaeth am y cyllid

1.13. Gallwch fod yn gymwys i gael cyllid gan Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC). Gall y cymorth hwn gynnwys benthyciadau ffioedd dysgu rhan amser, benthyciadau cynhaliaeth a grantiau.

1.14. Bydd y cynnyrch/cynhyrchion cyllid y byddwch yn gymwys i'w gael/cael yn dibynnu ar pryd y gwnaethoch ddechrau eich cymhwyster. I gael gwybodaeth fanwl am gymhwysedd a'r ffordd o wneud cais, cyfeiriwch at wefan CMC.

1.15. Yng Nghymru, mae benthyciad ffioedd dysgu rhan amser wedi'i gapio ar £2,875 i bob Blwyddyn Academaidd Dymhorol. Gallwch gofrestru ar gyfer modiwlau y mae eu ffioedd yn uwch na'r cap hwn, ond mae'n rhaid i chi dalu unrhyw ffioedd ychwanegol eich hun.

## Cyllid Cynhaliaeth

1.16. I gael unrhyw gyllid cynhaliaeth a ddyfarnwyd ar eich cyfer, rhaid i ni gadarnhau â CMC ein bod yn fodlon eich bod yn ymgymryd â'ch astudiaethau.

1.17. Gelwir y broses hon yn Cadarnhau Cofrestriad ac mae'n cynnwys defnyddio gwybodaeth am eich cyfraniad i'ch modiwl(au) i gadarnhau eich bod yn astudio. Yna, byddwn yn adrodd ar hyn i CMC i'w alluogi i ryddhau eich cyllid. Mae'r broses hon fel arfer yn dechrau ar ôl diwrnod 14 eich modiwl, sef y pwynt lle byddwch yn atebol am eich ffioedd.

1.18. Mae manylion pellach am y broses o fonitro eich cyfraniad a'ch ymgysylltiad a'r ffordd y defnyddir y wybodaeth hon wedi'u hamlinellu yn y Polisi Presenoldeb a Chyfranogiad a'r Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr.

## 5. Talu eich ffioedd

1.19. Mae eich rhwymedigaeth i dalu ffioedd a chanlyniadau peidio â'u talu wedi'u cynnwys yn yr Amodau Cofrestru.

1.20. Byddwn ond yn derbyn cyllid gan drydydd parti (e.e. benthyciadau, grantiau) os byddwch chi'n bodloni gofynion y corff o ran bod yn gymwys i gael cyllid. Rhaid cael cadarnhad o'r cymhwysedd cyn i chi gofrestru fel arfer. Os cewch gofrestru cyn i'ch cymhwysedd gael ei gadarnhau, efallai y byddwn yn canslo eich cofrestriad os na fyddwn yn cael cadarnhad wedi hynny. Cewch eich hysbysu o flaen llaw os bydd hyn yn digwydd.

1.21. Ar gyfer nawdd, rhaid cyflwyno cytundeb nawdd wedi'i lofnodi fel addewid i dalu. Rydym yn derbyn y cytundeb hwn fel cadarnhad o'r taliad. Os na chaiff y cytundeb nawdd ei gyflwyno, mae'n bosibl y byddwn yn canslo eich cofrestriad ac yn gofyn am unrhyw ffioedd y mae'n rhaid i chi eu talu.

1.22. **OUSBA:** Mae'n bosibl y gallwch dalu eich ffioedd drwy ddefnyddio benthyciad gan The Open University Student Budget Accounts Ltd (OUSBA). Os byddwch yn dewis talu yn y ffordd hon, bydd OUSBA yn talu eich ffioedd i'r Brifysgol Agored ar eich rhan, a byddwch chi'n ad-dalu OUSBA naill ai mewn swm unigol neu mewn rhandaliadau misol. I gael rhagor o fanylion, ewch i wefan OUSBA.

1.23. Os caiff taliad neu ddull talu y cytunwyd arno eu tynnu'n ôl neu os nad ydynt yn ddigonol, mae'n bosibl y byddwn yn canslo eich cofrestriad ac yn gofyn am unrhyw ffioedd fel y nodir yn y Polisi Dyledion Myfyrwyr.

1.24. Os bydd angen i chi dalu ffioedd dysgu i ni, mae'n bosibl y cewch eich atal rhag cofrestru i astudio yn y dyfodol oni bai eich bod yn talu ymlaen llaw neu'n rhoi dull talu a dderbynnir ar waith.

1.25. Os bydd angen i chi ailadrodd modiwl, rhaid i chi gofrestru eto a thalu'r ffi yn llawn. Byddwch yn talu'r ffi sydd ar waith ar yr adeg y byddwch yn ailadrodd y modiwl.

# 6. Canslo, gohirio neu dynnu'n ôl

## Canslo

1.26. **Hawl i ganslo:** Mae gennych hawl i ganslo eich cofrestriad ar gyfer modiwl neu gymhwyster o fewn 14 diwrnod calendr i ddyddiad yr e-bost neu'r llythyr a anfonwyd yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cofrestriad.

1.27. **Canslo cyn i'r modiwl ddechrau:** Os byddwch yn dymuno canslo eich cofrestriad ar ôl 14 diwrnod heb fod yn atebol am y ffioedd, rhaid i chi ganslo cyn dyddiad dechrau'r modiwl.

1.28. **Ad-daliad:** Os bydd **paragraff 6.1 neu 6.2** yn berthnasol, byddwch yn cael ad-daliad llawn o'r ffioedd a dalwyd neu bydd unrhyw ffioedd sy'n weddill yn cael eu hepgor.

1.29. Dilynwch y gweithdrefnau canslo a nodir yn y Polisi Newid Eich Cynlluniau Astudio.

1.30. Os byddwch yn canslo eich cofrestriad yn unol â **pharagraff 6.1 a 6.2**, ni fyddwn yn gofyn i CMC dalu unrhyw fenthyciad ffioedd dysgu. Caiff unrhyw gytundebau am fenthyciad gan yr OUSBA eu canslo.

## Gohirio neu dynnu'n ôl

1.31. **Monitro ymgysylltiad:** Rydym yn monitro eich ymgysylltiad yn unol â'r Polisi Presenoldeb a Chyfranogiad. Os ydych yn rhoi'r gorau i astudio heb ddilyn y broses ohirio a amlinellir yn y Polisi Newid Eich Cynlluniau Astudio, efallai y bydd eich cofrestriad yn cael ei ganslo, a bydd unrhyw gyllid cynhaliaeth yn cael ei atal dros dro er mwyn sicrhau y rheolir arian cyhoeddus yn briodol.

1.32. **Dyddiad perthnasol ar gyfer gohirio neu dynnu'n ôl:** Mae'r dyddiad y byddwch yn gohirio neu'n tynnu eich cofrestriad yn ôl yn hollbwysig gan ei fod yn pennu eich cymhwysedd i gael ad-daliad o'r ffioedd neu i hepgor ffioedd a bydd yn effeithio ar eich cofnod academaidd. Bydd achos o dynnu cofrestriad yn ôl yn weithredol o'r dyddiad y byddwch yn cysylltu â ni, neu'r dyddiad y gwnaethoch gymryd rhan weithredol yn eich astudiaethau, pa bynnag ddyddiad yw'r cynharaf. **Mae paragraffau 6.18 a 6.19** yn amlinellu'r dyddiadau a ddefnyddir i gyfrifo eich rhwymedigaethau o ran ffioedd ac unrhyw ad-daliadau neu achosion lle y gellir hepgor ffioedd.

1.33. **Gordalu cyllid cynhaliaeth:** Yn dibynnu ar pryd y byddwch yn gohirio neu'n tynnu eich cofrestriad yn ôl (**paragraffau 6.18 a 6.19**), neu os byddwch yn rhoi'r gorau i astudio heb ddilyn y broses ohirio, mae'n bosibl y bydd arian yn ddyledus gennych i CMC am eich cyllid cynhaliaeth.

1.34. **Hysbysiad:** Rhaid i chi roi gwybod i ni am eich bwriad i ohirio neu dynnu eich cofrestriad yn ôl drwy ddefnyddio'r weithdrefn yn y Polisi Newid Eich Cynlluniau Astudio. Ni fyddwch yn gymwys i gael ad-daliad o'r ffioedd os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni a gall hyn effeithio ar eich cymhwysedd i gael cyllid cynhaliaeth.

1.35. **Talu'r ffi:** Rhaid i chi dalu'r ffioedd y cytunwyd arnynt hyd yn oed os byddwch yn gohirio neu'n tynnu'n ôl o'ch astudiaethau wedi hynny, oni bai bod gennych hawl i ad-daliad.

1.36. **Benthyciadau ffioedd dysgu:** Os byddwch yn talu gyda benthyciad ffioedd dysgu ac yna'n gohirio neu'n tynnu eich cofrestriad yn ôl, ni fyddwch yn atebol am y ffioedd sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad gohirio neu dynnu'n ôl, a chaiff eich cymhwysedd am fenthyciad ei addasu'n unol â hynny.

1.37. **Ad-daliadau:** Os byddwch yn gohirio neu'n tynnu eich cofrestriad yn ôl ar ôl i'r modiwl ddechrau a mwy na 14 diwrnod ar ôl cofrestru:

- Dim ond mewn amgylchiadau penodol y cewch ad-daliadau neu y caiff eich ffioedd eu hepgor, ac mae'n dibynnu ar eich dull cyllido a phryd y byddwch yn gohirio neu'n tynnu eich cofrestriad yn ôl o'r modiwl. Gweler **paragraffau 6.18 a 6.19** isod am ragor o fanylion.

1.38. **Y dyddiad gohirio terfynol:** Y dyddiad gohirio terfynol yw'r dyddiad olaf y gallwch ohirio eich modiwl. Y dyddiad hwn yw'r diwrnod gwaith olaf cyn i chi sefyll yr arholiad neu gyflwyno'r asesiad diwedd modiwl (ADM) neu, ar gyfer modiwlau nad oes ADM ynghlwm â nhw, y diwrnod gwaith olaf cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r darn olaf o waith a gaiff ei asesu. Cyfeiriwch at StudentHome neu wefan eich modiwl ar gyfer y dyddiadau cau penodol.

1.39. **Gohirio benthyciad gan OUSBA:** Os byddwch wedi talu eich ffioedd drwy ddefnyddio benthyciad gan OUSBA, rhaid i chi roi gwybod i ni yn ffurfiol am eich bwriad i ohirio eich cofrestriad. Bydd rhoi'r gorau i'ch astudiaethau neu beidio â chwblhau eich taliadau heb roi gwybod i ni yn eich gwneud yn atebol am y ffioedd llawn ac unrhyw daliadau y mae angen eu talu fel rhan o'ch cytundeb credyd. Caiff unrhyw gytundebau am fenthyciad gan yr OUSBA eu haddasu er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'ch rhwymedigaethau o ran ffioedd y modiwl. Bydd yr OUSBA yn cysylltu â chi yn uniongyrchol os bydd unrhyw newidiadau i'r swm sy'n weddill ar eich benthyciad neu i'r amserlen dalu os byddwch yn gohirio eich cofrestriad.

1.40. **Tynnu eich cofrestriad yn ôl:** Mewn achosion prin lle mae angen i ni dynnu eich cofrestriad ar gyfer modiwl, cymhwyster, neu raglen astudio yn ôl, caiff camau rhesymol eu cymryd i sicrhau y gallwch barhau â'ch astudiaethau fel yr amlinellir yn y Cynllun Amddiffyn Myfyrwyr a'r Amodau Cofrestru. Os na fydd yn bosibl i chi barhau, mae'r Polisi Ad-daliad a Digolledu yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer ad-daliadau neu ddigolledu.

## Ffioedd a dalwyd gennych chi, gan drydydd parti, neu noddwr

1.41. Os gwnaethoch chi, trydydd parti neu noddwr dalu eich ffioedd (yn llawn neu'n rhannol), mae'n bosibl y byddwch/byddent yn gymwys i gael ad-daliad fel yr amlinellir yn **adran 6**.

## Newid modiwlau

1.42. Os byddwch yn newid modiwl, caiff unrhyw ad-daliad sy'n ddyledus ei drosglwyddo i'r modiwl newydd. Rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth os bydd pris y modiwl newydd yn uwch. Os bydd pris y modiwl hwnnw yn llai, byddwch yn cael ad-daliad o'r gwahaniaeth.

## Rhwymedigaethau o ran ffioedd

1.43. Mae'r adran hon yn amlinellu eich rhwymedigaethau o ran ffioedd yn seiliedig ar y dyddiad y gwnaethoch ddechrau eich modiwl a phryd y byddwch yn dewis gohirio neu dynnu eich cofrestriad yn ôl. Dylech ond edrych ar yr adran sy'n berthnasol i chi.

1.44. Bydd unrhyw gyllid y mae gennych hawl iddo yn cael ei asesu yn seiliedig ar eich bwriadau astudio ar ddechrau eich modiwl cyntaf. Mae eich hawl i gyllid yn cael ei phennu ar ddechrau eich modiwl cyntaf, ac mae'r hawl honno yn parhau:

- tra bydd eich Blwyddyn Academaidd Dymhorol yn parhau (os yw eich modiwl wedi'i gysylltu â chymhwyster), neu;
- tra bydd y modiwl hwnnw yn parhau (os ydych yn ei astudio fel modiwl ar wahân).

### Modiwlau sy'n dechrau rhwng 1 Awst a 31 Rhagfyr

- **Rhwymedigaeth o ran ffioedd – 0%:** Cyn i'ch modiwl ddechrau neu cyn diwrnod 14 o'ch modiwl.
- **Rhwymedigaeth o ran ffioedd – 25%:** O ddiwrnod 14 o'ch modiwl tan 31 Rhagfyr.
- **Rhwymedigaeth o ran ffioedd – 50%:** O 1 Ionawr tan 31 Mawrth (neu'r dyddiad gohirio terfynol, pa un bynnag sydd gyntaf).
- **Rhwymedigaeth o ran ffioedd – 100%:** O 1 Ebrill tan y dyddiad gohirio terfynol. Mae hyn yn golygu na fyddwch yn gymwys i gael ad-daliad.

### Modiwlau sy'n dechrau rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth

- **Rhwymedigaeth o ran ffioedd – 0%:** Cyn i'ch modiwl ddechrau neu cyn diwrnod 14 o'ch modiwl.
- **Rhwymedigaeth o ran ffioedd – 25%:** O ddiwrnod 14 o'ch modiwl tan 31 Mawrth.
- **Rhwymedigaeth o ran ffioedd – 50%:** O 1 Ebrill tan 31 Gorffennaf (neu'r dyddiad gohirio terfynol, pa un bynnag sydd gyntaf).
- **Rhwymedigaeth o ran ffioedd – 100%:** O 1 Awst tan y dyddiad gohirio terfynol. Mae hyn yn golygu na fyddwch yn gymwys i gael ad-daliad.

### Modiwlau sy'n dechrau rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin

- **Rhwymedigaeth o ran ffioedd – 0%:** Cyn i'ch modiwl ddechrau neu cyn diwrnod 14 o'ch modiwl.

- **Rhwymedigaeth o ran ffioedd – 25%:** O ddiwrnod 14 o'ch modiwl tan 31 Gorffennaf.
- **Rhwymedigaeth o ran ffioedd – 50%** O 1 Awst tan 31 Rhagfyr (neu'r dyddiad gohirio terfynol, pa un bynnag sydd gyntaf).
- **Rhwymedigaeth o ran ffioedd – 100%:** O 1 Ionawr tan y dyddiad gohirio terfynol. Mae hyn yn golygu na fyddwch yn gymwys i gael ad-daliad.

# 7. Credydau Ffioedd Dewisol

## Credydau ac Ad-daliadau Ffioedd Dewisol

7.1 **Credyd Ffioedd Dewisol:** Disgownt a roddir ar ôl i chi ohirio neu fethu modiwl oherwydd amgylchiadau eithriadol yw Credyd Ffioedd Dewisol. Caiff y disgownt ei gymhwyso at ffi modiwl a gyflwynir yn y dyfodol. Dim ond ar gyfer astudio yn y dyfodol y gellir ei ddefnyddio, ac nid oes opsiwn arian parod ar gael.

7.2 **Bod yn gymwys i gael Credyd Ffioedd Dewisol:** Gallwch fod yn gymwys i gael Credyd Ffioedd Dewisol os byddwch yn gohirio neu'n methu modiwl oherwydd amgylchiadau anrhagweladwy a'ch bod yn gallu darparu tystiolaeth o hyn lle y bo'n berthnasol. Gellir gweld yr enghreifftiau o'r dystiolaeth ategol y gallai fod angen i chi eu darparu ar y Ganolfan Gymorth: Gwneud cais am Gredyd Ffioedd Dewisol neu Ad-daliad. Gellir ystyried yr amgylchiadau anrhagweladwy canlynol:

- marwolaeth aelod agos o'r teulu, partner neu ddibynnydd
- analluogrwydd estynedig ar eich rhan chi neu ar ran aelod agos o'r teulu oherwydd salwch difrifol, damwain neu gyflwr meddygol
- anabledd
- analluogrwydd estynedig ar eich rhan chi o ganlyniad i feichiogrwydd neu famolaeth/tadolaeth neu fenthyg croth
- analluogrwydd estynedig ar eich rhan chi o ganlyniad i fabwysiadu
- analluogrwydd estynedig ar eich rhan chi oherwydd ailbennu rhywedd
- newid mewn amgylchiadau cyflogaeth sy'n golygu na allwch barhau i astudio oherwydd natur eithafol y gwaith
- camweinyddu ar ein rhan ni

- newid mewn cyfrifoldebau gofalu
- amgylchiadau eithriadol difrifol eraill y tu hwnt i'ch rheolaeth chi

**7.3** **Swm:** Gellir dyfarnu Credyd Ffioedd Dewisol am hyd at 100% o'r atebolrwydd i dalu ffioedd yr aed iddynt ar gyfer y modiwl a ohiriwyd gennych neu a fethwyd gennych. Os na fydd y Credyd Ffioedd Dewisol yn cwmpasu cost lawn eich modiwl pan fyddwch yn dychwelyd i astudio, rhaid i chi dalu unrhyw ffioedd ychwanegol sy'n ddyledus ar gyfer y modiwl.

**7.4** **Terfyn Amser:** Gellir defnyddio Credydau Ffioedd Dewisol tuag at unrhyw fodiwl sy'n dechrau o fewn 13 mis i ddyddiad dechrau'r modiwl y gwnaethoch ei ohirio neu ei fethu. Os byddwch am astudio'r modiwl y gwnaethoch ei ohirio neu ei fethu eto ac os yw'r dyddiad dechrau nesaf y tu hwnt i'r cyfnod hwn, gellir defnyddio'r Credyd Ffioedd Dewisol yn yr un modd. Mae Credydau Ffioedd Dewisol a ddefnyddiwyd yn dod i ben ar ôl y cyfnod hwn ac ni roddir unrhyw ad-daliad. Ni ellir defnyddio Credydau Ffioedd Dewisol ar gyfer Microgymwysterau na Rhaglenni Prentisiaeth.

7.5 Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir cael caniatâd i ddefnyddio Credyd Ffioedd Dewisol am hyd at 25 mis ar ôl diwrnod cyntaf y modiwl y gwnaethoch ei ohirio. Cysylltwch â'n Tîm Cymorth Myfyrwyr am ragor o fanylion.

**7.6** **Defnydd:** Dim ond unwaith y gellir defnyddio Credyd Ffioedd Dewisol. Os byddwch yn defnyddio Credyd Ffioedd Dewisol mewn taliad llawn neu daliad rhannol ac yna'n gohirio neu'n tynnu eich cofrestriad yn ôl, ni fyddwch fel rheol yn gymwys i gael Credyd Ffioedd Dewisol arall ar gyfer y modiwl hwnnw.

**7.7** **Taliadau gan drydydd parti:** Os gwnaeth trydydd parti dalu eich ffioedd, caiff y Credyd Ffioedd Dewisol ei anfon atoch chi.

**7.8** **Cais am Gredyd Ffioedd Dewisol**: Os byddwch yn credu eich bod yn gymwys i gael Credyd Ffioedd Dewisol, ewch i'r Ganolfan Gymorth: Gwneud Cais am Gredyd Ffioedd Dewisol neu Ad-daliad neu cysylltwch â'n Tîm Cymorth Myfyrwyr i wneud cais. Byddwch yn derbyn y canlyniad yn ysgrifenedig gennym o fewn 10 diwrnod gwaith.

**7.9** **Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais:** Rhaid i chi gyflwyno eich cais am Gredyd Ffioedd Dewisol o fewn 13 mis i ddyddiad dechrau'r modiwl rydych wedi ei ohirio neu wedi ei fethu.

## Ad-dalu Ffioedd Dewisol

**7.10** **Ad-dalu Ffioedd Dewisol:** Mae Ad-dalu Ffioedd Dewisol yn golygu ad-dalu ffioedd yr aed iddynt eisoes ar gyfer modiwl. Dim ond pan fydd amgylchiadau eithriadol yn golygu na allwch ddychwelyd i astudio o gwbl y caiff ffioedd eu had-dalu.

**7.11** **Bod yn gymwys i gael Ad-daliad Ffioedd Dewisol:** Dim ond o dan yr amodau canlynol y gellir ystyried Ad-dalu Ffioedd Dewisol

- Marwolaeth myfyriwr cofrestredig neu fyfyriwr sydd wedi'i gofrestru.
- Salwch difrifol ac annisgwyl am gyfnod estynedig ar eich rhan chi neu aelod agos o'r teulu, sy'n eich atal rhag dychwelyd i astudio o fewn 25 mis i ddyddiad dechrau'r modiwl ar gyfer y modiwl y gwnaethoch ei ohirio.
- Achos difrifol o gamweinyddu ar ein rhan ni sydd wedi arwain at eich dymuniad i roi'r gorau i astudio a lle y cytunwyd â hyn ar y cyd â ni.

**7.12** **Swm:** Gellir ad-dalu Ffioedd Dewisol am hyd at 100% o'r atebolrwydd i dalu ffioedd yr aed iddynt ar gyfer y modiwl a ohiriwyd neu a fethwyd gennych.

7.13 Caiff unrhyw Ad-daliad Ffioedd Dewisol a gymeradwyir ei dalu drwy'r dull talu gwreiddiol. Pan fydd trydydd parti wedi talu eich ffioedd, er enghraifft noddwr, caiff y ffioedd eu dychwelyd at y trydydd parti hwnnw.

**7.14** **Gwneud cais am Ad-daliad Ffioedd Dewisol:** Os credwch eich bod yn gymwys i gael Ad-daliad Ffioedd Dewisol, ewch i'r Ganolfan Gymorth: Gwneud Cais am Gredyd Ffioedd Dewisol neu Ad-daliad neu cysylltwch â'n Tîm Cymorth Myfyrwyr i wneud cais. Byddwch yn derbyn y canlyniad yn ysgrifenedig gennym o fewn 10 diwrnod gwaith.

**7.15** **Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais:** Rhaid i chi gyflwyno eich cais am Ad-daliad Ffioedd Dewisol o fewn 13 mis i ddyddiad dechrau'r modiwl rydych wedi ei ohirio neu wedi ei fethu.

**7.16** **Dyfarniadau eithriadol:** Efallai y bydd Dirprwy'r Is-ganghellor yn cymeradwyo dyfarniadau eithriadol ar gyfer Credyd Ffioedd Dewisol neu achosion o Ad-dalu y tu allan i'r meini prawf arferol.

## 8. Costau ychwanegol

1.45. Gallai costau ychwanegol gael eu codi arnoch wrth astudio fel ar gyfer cyfrifiadur, mynediad at y rhyngrwyd, teithio i diwtorialau a llyfrau gosod. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Mae'n bosibl y bydd cymorth ariannol ar gael i fyfyrwyr ar incwm isel. Cysylltwch â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr, gweler y dudalen Cyllid costau astudio neu ewch i wefan CMC am ragor o wybodaeth.

1.46. Os byddwch yn cofrestru ar gyfer modiwl gydag ysgol breswyl, chi sy'n gyfrifol am unrhyw gostau ychwanegol a gaiff eu codi arnoch er mwyn ei gwblhau. Mae hyn yn cynnwys costau teithio i'r ysgol breswyl, costau llety a phrydau bwyd a ddarperir pan fyddwch yn bresennol yn yr ysgol breswyl. Byddwch yn cael gwybod am unrhyw gostau ychwanegol cyn i chi gofrestru, gan gynnwys pryd a sut y mae'n rhaid talu'r rhain.

1.47. Gall fod angen i fyfyrwyr sy'n astudio modiwlau Gwyddorau gydag ysgol breswyl gysylltu â darparwr allanol yn uniongyrchol i drefnu eu lle ac i wneud taliad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y disgrifiad o'r modiwl ar y prosbectws ar-lein

1.48. Nid oes angen i chi dalu ffi er mwyn ailsefyll arholiadau, ailsefyll arholiadau a gafodd eu gohirio, neu er mwyn ailgyflwyno eich Asesiadau Diwedd Modiwl.

## Deddfwriaeth a Pholisïau Cysylltiedig

- Rheolau Bancio Asesiadau
- Polisi Presenoldeb a Chyfranogiad
- Polisi Newid Eich Cynlluniau Astudio
- Amodau Cofrestru
- Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisi Statws Ffioedd
- Polisi Ad-daliad a Digolledu
- Safonau'r Gymraeg
- Siarter Myfyrwyr
- Gweithdrefn Gwyno ac Apelio i Fyfyrwyr
- Polisi Dyledion Myfyrwyr

- Cynllun Amddiffyn Myfyrwyr

## Adborth

Os bydd gennych unrhyw adborth ar y polisi hwn, e-bostiwch student-policy-compliance@open.ac.uk.

## Datganiad yr Elusen

Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff Y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd.

## Ynglŷn â'r Ddogfen hon

### Crynodeb o'r Newidiadau Sylweddol ers y fersiwn flaenorol

Nodir isod y newidiadau sylweddol ers fersiwn flaenorol y ddogfen hon:

- Mae'r adran "Fformat Amgen, cymorth a gwybodaeth" wedi cael ei diweddaru i gynnwys cyfeiriad at fersiwn Gymraeg o'r polisi sydd ar gael.
- Mae cymal 4.9 wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r ffaith bod cymorth benthyciad ffioedd dysgu rhan amser ar gyfer 2026-27 wedi cael ei gapio ar £2,875 fesul Blwyddyn Academaidd Dymhorol.
- Ychwanegwyd paragraff 6.19 newydd er mwyn egluro pan fydd yr hawl i gyllid a phatrymau atebolrwydd i dalu ffioedd yn cael eu hasesu a'u pennu.
- Mae adran 7 wedi cael ei ddiweddaru i'w gwneud yn fwy eglur ac yn haws i'w darllen. Cafodd ei hail-drefnu'n ddwy is-adran ar wahân ar gyfer Credydau Ffioedd Dewisol ac Ad-dalu Ffioedd. Nid yw'r cynnwys wedi newid.
- Mae paragraff 8.2 wedi cael ei ddiweddaru i gadarnhau y byddwch yn cael eich hysbysu am unrhyw gostau ysgol breswyl ychwanegol cyn i chi gofrestru.

### Gwybodaeth am y Ddogfen

Rhif y fersiwn: 1.0

Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd

Yn weithredol o: 1 Awst 2026

Dyddiad adolygu: Mawrth 2027